HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD A HEDDLU GOGLEDD CYMRU

CYFARWYDDYD I WERTH CYMDEITHASOL

## Cefndir

Bydd pob tendr, ceisiadau am brisiau, ymarferiadau comisiynu ac ariannu grantiau yn gofyn i gyflenwyr gyflwyno ymateb i Gwestiwn Gwerth Cymdeithasol. Mae'r cyfarwyddyd canlynol yn un generig a'r bwriad yw cefnogi pob cyflenwr sy'n ymateb i gwestiynau.

Bydd cyflenwyr o nifer o sectorau yn gallu cefnogi llwyddiant amcanion gwerthoedd cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru (HGC) a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) drwy gyflwyno contractau a gweithio mewn partneriaeth.

Rhestrir yr amcanion isod.




Dechreuwch ystyried yr hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd sy'n gweddu i'r amcanion uchod. Os yw o gymorth gallwch wneud asesiad annibynnol sylfaenol o'ch sefydliad i bwyso a mesur pa mor barod yr ydych i ddechrau cyflwyno Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r sector cyhoeddus o dan bwysau ariannol cynyddol wrth i'r galw am wasanaethau dyfu. Felly mae'n hanfodol ein bod ni'n ystyried y manteision cymdeithasol a chymunedol wrth wario arian cyhoeddus ac archwilio. Beth sy'n bwysig i bobl leol a chymunedau wrth gyflwyno gwasanaethau? A oes posib cyflwyno gwasanaethau yn wahanol i greu effaith bositif? Ble gallwn ni gefnogi busnesau lleol drwy gytundebau cyhoeddus? Beth yw'r sialensiau lleol yr ydym yn eu hwynebu y gallent gael eu datrys yn well drwy weithio gyda'n gilydd gyda chymunedau lleol?

Gallai eich ymateb i'r cwestiwn Gwerth Cymdeithasol gynyddu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eich cymuned leol ***ond gall hefyd eich galluogi i chi ennill cytundeb,*** felly dilynwch y canllawiau ategol isod.

## Cymorth i chi ddangos eich cynnig Gwerth Cymdeithasol

Gall cyflenwyr o bryd i'w gilydd gael trafferth i ddangos sut y gallent gyflwyno Gwerth Cymdeithasol wrth
gwblhau dogfennau tendr. Dyma rhai cyfarwyddiadau i'ch cynorthwyo i gyflwyno eich cais

- **Polisi Gwerth Cymdeithasol** – Ymgyfarwyddwch â Pholisi Gwerth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Pholisi Gwerth Cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn er mwyn deall ein blaenoriaethau yn well a sut y gallwch uno'r hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r blaenoriaethau hynny.
- **Siarter Gwerth Cymdeithasol** Ymgyfarwyddwch â Siarter Gwerth Cymdeithasol Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Mae hon yn siarter wirfoddol a hunanasesu ar gyfer tendrau o dan £50,000.
- **Cadwyn gyflenwi** - os ydych yn gweithio gyda chyflenwyr ac isgontractwyr eraill i gyflwyno eich cais yna edrychwch os gallent eich cefnogi chi. Efallai eu bod eisoes yn cyflenwi gwerthoedd cymdeithasol?
- **Manylion yn yr ateb** – cofiwch os ydych yn cwblhau ymateb i
    - Cwestiwn cyn cymhwyso (PQQ) y bydd angen i chi ddangos profiadau yn y gorffennol, yn ddelfrydol gyda rhai ffeithiau a ffigyrau am yr hyn y gwnaethoch chi gyflawni.
    - Gwahoddiad i dendro (ITT) – bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn cyflwyno'r cytundeb. Efallai eich bod eisiau ystyried y canlynol o fewn eich ateb? Sut y byddwch yn rheoli cyflawni gwerth cymdeithasol? Sut y byddwch yn ymgysylltu â'r cleient yn ystod cyflawni gwerth cymdeithasol? Sut y byddwch yn adrodd ar y canlyniadau gwerth cymdeithasol sy'n cael eu cyflawni?
- **Realistig** – byddwch yn realistig ynglŷn â'r hyn y gallwch ei gyflwyno gan y bydd hwn yn datblygu'n ymrwymiad cytundebol os ydych yn llwyddiannus.

* Bydd unrhyw Werth Cymdeithasol arfaethedig sy'n cael ei gynnig yn cael ei ysgrifennu i mewn i'r cytundeb fel dangosydd perfformiad allweddol i sicrhau bod y canlyniad(au) yn cael eu cyflawni.

## Rhai syniadau

| CYMDEITHASOL | ECONOMAIDD | AMGYLCHEDDOL | DIWYLLIANNOL |
|---|---|---|---|
| Creu cyfleoedd i wirfoddoli i'ch staff neu'r gymuned | Creu swyddi, hyfforddiant a phrofiad gwaith | Lleihau ynni ac allyriadau niweidiol | Lleihau masnachu diegwyddor neu gaethwasiaeth fodern o'r Gadwyn Gyflenwi |
| Cynnig pecynnau Iechyd a Lles i staff | Gwario arian gyda siopau lleol a chyflenwir | Cynnig Ardal Werdd a Hamdden ar gyfer staff neu gymuned | Cefnogi staff i ddysgu a siarad Cymraeg |
| Gwella cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith i staff | Talu cyflog byw i holl staff | Lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy | Annog staff i ymweld â lleoedd diwylliannol / |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Noddi timau a digwyddiadau lleol | Cyflogi pobl leol | Cyflenwi bwyd i fanciau bwyd | Noddi neu gefnogi digwyddiadau diwylliannol lleol |

## Cyngor a Hyfforddiant Pellach

Er mwyn aros yn ddiduedd ni all SCHTh a HGC gynnig cyngor unigol i gyflenwyr. Serch hynny mae cefnogaeth bellach a hyfforddiant ar gael oddi wrth gyrff annibynnol. Gallwch gofrestru eich diddordeb mewn cael mwy o gefnogaeth, manylion neu gael gwybodaeth am wefannau cymorth yma.

Neu <http://sustainablesupplychainsltd.co.uk/north-wales-social-value-further-support/>